

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gupta Dental Surgeons, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 8 Ebrill 2019

Dyddiad cyhoeddi: 9 Gorffennaf
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	38

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gupta Dental Surgeons yn 41 Forge Road, Port Talbot SA13 1PG, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 8 Ebrill 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, (gan gynnwys un arweinydd, ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, ni chawsom sicrwydd bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae hyn wedi arwain at AGIC yn pennu'r practis hwn fel gwasanaeth sy'n peri pryder a rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn nodi materion yr oedd angen gweithredu arnynt ar unwaith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cyfeillgar sy'n hawdd mynd ato i'w gleifion.
- Rhoddodd y cleifion ymatebion cadarnhaol ar y cyfan i holiadur AGIC.
- Roedd y practis yn cadw ardaloedd aros y cleifion yn ddymunol, yn lân ac yn daclus.

Gwnaethom nodi sawl maes o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau fel a ganlyn:

- Rheoliad 22(2)(a) a (b) o ran cofnodion deintyddol. Ni allai AGIC fod yn sicr bod cofnodion cleifion a oedd yn cael eu cwblhau gan y practis yn cael eu cadw yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.
- Rheoliad 31(b) o ran dadebru. Ni allai AGIC fod yn sicr ar y diwrnod bod prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu hen gyfarpar a meddyginiaethau yn y pecyn cyffuriau brys.
- Rheoliad 13(2)(a) ac 13(4)(a) o ran diogelwch a chyflwr cyfarpar a phrosesau i reoli meddyginiaethau. Mae hyn oherwydd ni allem fod yn sicr ar y diwrnod bod prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu hen gyfarpar a meddyginiaethau.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Gwnaethom argymhellion eraill ar gyfer gwella hefyd ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad a'u rhestru yn Atodiad C.

6. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gupta Dental Surgeons yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Port Talbot yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom y staff yn croesawu'r cleifion er mwyn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth i roi cymorth i gleifion i wneud dewisiadau effeithiol ynglŷn ag iechyd da y geg ac opsiynau triniaeth yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu. Mae'n rhaid i'r practis hefyd roi proses ar waith i ymateb i adborth gan gleifion yn amserol.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Derbyniwyd cyfanswm o 40 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers dros ddwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarparwyd gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron mae'r canlynol:

"Hylenydd ardderchog, yn barod iawn i helpu"

"Hapus gyda lefel bresennol y gwasanaeth"

"Ar y cyfan mae'r triniaethau yn dda"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi egluro wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros am driniaethau preifat a thriniaethau'r GIG, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am iechyd y geg i oedolion a phlant. Roedd hyn yn enghraifft dda o'r practis yn helpu cleifion i gynnal eu hiechyd a hylendid y geg eu hunain.

Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Dywedodd y staff wrthym, os oedd angen cael sgwrs breifat â chlaf, y byddent yn mynd ag ef i ddeintyddfa wag er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd y claf yn cael ei gynnal. Gwelsom fod gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd.

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ yn cael eu harddangos yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Dywedodd bob un ond un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a dywedodd pob claf ond dau fod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Er bod taflen wybodaeth i gleifion yn bodoli a oedd yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y practis, gwelsom nad oedd copïau ohoni ar gael i'r cleifion

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

yn y dderbynfa; gwnaethom argymhell y dylai'r rhain fod ar gael. Roedd posteri yn dangos costau triniaethau preifat a chostau triniaethau'r GIG yn cael eu harddangos yn yr ardal aros. Roedd llawer o daflenni am driniaethau a phroblemau deintyddol er mwyn helpu cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd y geg ac opsiynau triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Er bod gwybodaeth ysgrifenedig ar gael, yn Saesneg roedd y wybodaeth hon gan amlaf. Roedd un aelod o'r staff yn siarad Cymraeg. Dylid gwneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg a helpu'r staff i wneud 'Cynnig Rhagweithiol'.²

Gofal amserol

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis ac yn cael eu rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Fodd bynnag, o ystyried canlyniadau'r holiadur, efallai y dylai'r practis ystyried ffyrdd i wella ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y tu allan i oriau sydd ar gael.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn caniatáu iddo aildrefnu pe byddai angen iddo wneud hynny.

²Mae 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i neb orfod gofyn amdano
<https://gweddiill.llyw.cymru/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy>

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion a welsom ar y diwrnod. Darperir rhagor o fanylion am y mater hwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ynghyd ag arsylwadau ar gofnodion cleifion.

Er y darperir triniaethau yn unol â'r datganiad o ddiben³, ni chawsom ein bodloni bod y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau am eu triniaeth na bod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion. Roedd hyn am nad oedd cofnodion y cleifion yn cynnwys digon o fanylion am yr archwiliadau a wnaed na'r opsiynau triniaeth a oedd ar gael i'r cleifion.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch yr uchod yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Hawliau pobl

Roedd gris bach dros ffrâm y drws yn nhu blaen y practis a allai atal mynediad i rai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Cawsom wybod y gallai'r cleifion ddefnyddio'r fynedfa yn y cefn yn yr achosion hyn. Roedd holl ardaloedd y cleifion yn yr adeilad yn hygyrch i'r holl gleifion. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau pan oedd claf yn cael triniaeth; roedd hyn yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith i gefnogi'r staff a'r cleifion ac i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal cynhwysfawr a chynhwysol, gan gynnwys polisi derbyn cleifion a pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gwrandao a dysgu o adborth

³Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw datganiad o ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith a oedd yn cydymffurfio â rhaglen Gweithio i Wella⁴ y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Roedd llyfr sylwadau ac awgrymiadau wedi cael ei roi yn y dderbynfa yn ddiweddar hefyd.

Cawsom wybod bod y practis yn y broses o greu arolygon cleifion ond nid oedd wedi ymgymryd â hyn ar adeg yr arolygiad. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnig cyfleoedd i'r cleifion ddarparu adborth ar y practis, a dylai ymateb i'r adborth lle y bo'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu.

Mae'n rhaid i'r practis roi proses ar waith i ymateb i adborth gan gleifion yn amserol.

⁴http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%20011.pdf

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, ni chawsom sicrwydd bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau mewn nifer o feysydd allweddol.

Nododd AGIC bryderon o ran hen feddyginiaethau a deunyddiau yn y deintyddfeydd, yr ystafell stoc a'r pecyn cyffuriau brys. Canfu ein hadolygiad o gofnodion y cleifion nad oeddent yn cynnwys manylion digonol i gadarnhau bod opsiynau triniaeth yn cael eu cynnig i'r cleifion ac nid oeddent yn cynnwys digon o dystiolaeth mewn sawl achos i gyfiawnhau'r driniaeth a ddarparwyd. Mae AGIC wedi cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r canfyddiadau hyn gan eu bod yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y cleifion.

Mae angen gwella'r prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac nad yw diogelwch y cleifion yn cael ei beryglu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion a bod ganddo bolisiâu diogelu priodol ar waith.

Gofal diogel

Fel yr amlinellwyd uchod, ni allai AGIC fod yn sicr bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel i'r cleifion. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cynnwys mwy o fanylion am ein pryderon ac mae Atodiad B yn rhoi manylion am y gwelliannau uniongyrchol yr oedd gofyn i'r practis eu gwneud er mwyn ymdrin â nhw. Gwnaethom nodi nifer o bryderon yn ystod ein harolygiad a oedd yn effeithio ar allu'r practis i ddarparu gofal diogel i'r cleifion. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- Triniaethau a ddarparwyd i'r cleifion
- Safon y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion cleifion
- Gwiriadau cyffuriau a chyfarpar a ddefnyddiwyd mewn argyfyngau cleifion
- Gwiriadau cyfarpar a meddyginiaethau yn y deintyddfeydd.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r uchod o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn" neu'n "gymharol lân".

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da, a hynny y tu mewn a'r tu allan. Roedd y safle wedi ei awyru'n dda ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan ac roedd gan y deintyddfeydd gyfarpar addas. Roedd dwy ystafell aros ar wahân ar y llawr gwaelod, un ar gyfer pob deintyddfa, ac roedd toiled a oedd yn addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn ar gael.

Roedd y llawr cyntaf at ddefnydd y staff yn unig ac roedd yn cynnwys ystafell orffwys, cegin ac ardal ddihalogi, yn ogystal â swyddfa'r rheolwr. Roedd cyfleusterau ar gyfer newid a storio hefyd.

Roedd cypyrddau heb eu cloi yn yr ystafell aros a oedd yn cynnwys byrddau cylched trydanol na ellid eu gweld o'r dderbynfa. Gwnaethom argymhell y dylid diogelu'r rhain er mwyn sicrhau na allai'r cleifion gael mynediad at fannau peryglus.

Gwelsom fod y biniau ar gyfer offer miniog yn sefyll ar silff fach yn y ddeintyddfa gefn a gwnaethom gynghori y dylid eu gosod yn sownd er mwyn sicrhau na chaiff y staff na'r cleifion eu hanafu.

Roedd nifer o bolisïau ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn addas at y diben, gan gynnwys polisïau ar gyfer iechyd a diogelwch, cynlluniau wrth gefn mewn argyfwng, gofal cartref ac argyfyngau meddygol.

Ymgwymerwyd ag asesiad risg tân ac roedd y camau gweithredu yn mynd rhagddynt. Roedd cyfarpar tân yn cael ei storio'n ddiogel ac roedd wedi cael ei wirio'n ddiweddar fel rhan o'r asesiad risg tân. Dylid llenwi'r cofnodlyfr tân pan

gynhelir profion larwm, ymarferion tân a gwiriadau golau argyfwng oherwydd gwelsom nad oedd y cofnodlyfr wedi cael ei lenwi ers 2017. Gwnaethom gynghori y dylid cwblhau hyn er mwyn cefnogi'r practis i reoli'r risgiau a nodwyd yn yr asesiad risg tân.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid diogelu'r cypyrddau heb eu cloi yn yr ardaloedd aros er mwyn sicrhau nad yw'r cleifion yn gallu cyrraedd manau peryglus.

Dylid gosod biniau offer miniog yn sownd er mwyn sicrhau na chaiff y staff na'r cleifion eu hanafu.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau, hylendid dwylo a thrafod deunyddiau peryglus yn ddiogel. Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol, ond gwelsom fod sbectolau diogelwch y cleifion yn fudr a bod angen eu glanhau.

Dylid gosod sêl newydd ar y ffenestr yn y ddeintyddfa gefn er mwyn sicrhau nad yw baw a llwch yn casglu yn yr ardaloedd hyn. Gwelsom hefyd fod ardaloedd lle'r oedd baw wedi cronni o amgylch droriau, yn enwedig yn y ddeintyddfa flaen. Dylai'r practis sicrhau ei fod yn glanhau yn fanwl er mwyn sicrhau bod y deintyddfeydd yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)⁵

Roedd y cofnodlyfrau ar gyfer gwirio'r awtoclaf yn gyflawn ac yn gyfredol ac roeddent yn dangos bod profion a gwaith cynnal a chadw cyfnodol yn briodol ac wedi cael eu cyflawni yn unol â'r canllawiau a nodir yn WHTM 01-05. Mae hyfforddiant pellach i'r staff yn ofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r angen i ddefnyddio chwyddiad (er mwyn gweld halogiad, darnau neu niwed

⁵<http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/WHTM%2001-05%20Revision%201.pdf>

sy'n weddill) a'r angen i sicrhau bod offerynnau'n cael eu gorchuddio pan fyddant yn oeri er mwyn osgoi halogiad.

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05. Rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Nid oeddem yn fodlon bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trafod a gwaredu amalgam a dannedd wedi'u tynnu gydag amalgam neu hebddo. Yn ogystal, gwelsom fod sawl blwch yn llawn capsïwlau amalgam wedi'u defnyddio yn y deintyddfeydd yr oedd angen cael gwared arnynt.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod sbectolau diogelwch yn cael eu glanhau rhwng pob claf.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y safle yn cael ei lanhau'n drwyadl.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn, yn unol â WHTM 01-05.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trafod, casglu a gwaredu gwastraff amalgam a dannedd a dynnwyd yn ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Nid oedd gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau ar waith er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol a diogel ar gyfer archebu, trin a gwaredu meddyginiaethau. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith. Mae'n rhaid darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth am y canllawiau ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau brys yn cael eu storio mewn blwch plastig mewn cabinet yn y brif ddeintyddfa. Roedd y cyfarpar a'r feddyginiaeth i'w defnyddio mewn argyfwng ar gael. Fodd bynnag, roedd y nodwyddau ar gyfer chwistrellu adrenalin wedi darfod.

Nid oedd cofnod clir o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion a gwelsom nad oedd hi bob amser yn bosibl dehongli ar y diwrnod pa feddyginiaethau a roddwyd.

Nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad nad oedd prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu cyffuriau a chyfarpar brys a oedd wedi darfod. Gwelsom hefyd fod nifer sylweddol o eitemau yn y deintyddfeydd a'r ystafell storio a oedd wedi darfod ers hyd at 19 o flynyddoedd. Mae hyn yn rhoi'r cleifion mewn perygl a gallai defnyddio eitemau sydd wedi darfod effeithio ar effeithiolrwydd neu ddiogelwch y cyfarpar wrth ei ddefnyddio ar gleifion.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r uchod yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR).

Roedd yr unig oergell ar y safle yn cael ei defnyddio ar gyfer storio meddyginiaethau yn ogystal ag eitemau'r staff, fel bwyd. Mae'n rhaid i eitemau clinigol, fel meddyginiaethau, gael eu cadw yn eu hoergell eu hunain er mwyn atal croes-heintio.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nodwyd gennym fod pad presgripsiwn wedi'i adael heb oruchwyliaeth mewn un ddeintyddfa a gwnaethom argymhell bod angen cadw'r rhain yn ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen rhoi polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddeall yn iawn.

Mae angen cadw cofnod clir o'r meddyginiaethau a roddir i'r cleifion ar wahân i gofnodion clinigol y cleifion.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod eitemau clinigol, megis meddyginiaethau, yn cael eu cadw yn eu hoergell eu hunain i ffwrdd oddi wrth eitemau anghlinigol.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser i atal pobl anawdurdodedig rhag eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r angen i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Roedd yr holl gofnodion staff a wiriwyd gennym yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant ar-lein ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y rhain hefyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Darparodd y practis ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd gan y practis ffeil diogelu rhag ymbelydredd a oedd yn cael ei chynnal ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol, gan gynnwys polisi ymbelydredd. Roedd gan y practis bolisi diogelu rhag ymbelydredd ysgrifenedig.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁶ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000⁷, o'r ffeiliau staff a adolygwyd gennym, roeddent i gyd yn dangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Er bod gan y practis restr o offer a oedd yn cofnodi'r gwneuthurwr, y model a'r rhifau cyfresol a'r flwyddyn gwneuthur, nid oedd y rhestr yn gyfredol a gwnaethom gynghori y dylid ei diweddarau.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y practis yn cwblhau ystod o archwiliadau cyson. Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n

⁶Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁷http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

barhaus er budd y cleifion. Felly rydym yn argymhell y dylai'r practis roi rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith, ar gyfer pethau fel cofnodion meddygol (gan gynnwys hanes meddygol), radiograffeg, rheoli heintiau (gan gynnwys heintiau gwrth-ficrobaidd) a rhoi'r gorau i smygu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod adolygiadau deintyddol gan gymheiriaid yn cael eu cynnal. Gwnaethom argymhell y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y prif ddeintydd a deintyddfeydd eraill at y diben hwn. Cynghorwn hefyd fod y nyrsys deintyddol yn ystyried trefnu cyfarfodydd rheolaidd er mwyn trafod materion clinigol.

Roedd y practis yn ymdrechu i gydymffurfio â Chymdeithas Ddeintyddol Prydain yn unol â chynllun arfer da'r Gymdeithas.⁸

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid i'r staff clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion hefyd. Roedd copïau wrth gefn o gofnodion electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion a'i helpu i sicrhau nad oedd yn cael ei cholli.

Cadw cofnodion

⁸<https://www.bda.org/goodpractice> Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da o ran cyfrifoldebau proffesiynol a chyfreithiol i'w cleifion

Yn dilyn adolygu cofnodion deg claf, daeth AGIC i'r casgliad na allem fod yn sicr bod y prif ddeintydd yn arfer barn glinigol broffesiynol o ran darparu triniaethau ac roedd hyn o ganlyniad i safonau gwael wrth gadw cofnodion yn bennaf. Roedd yr elfennau allweddol i gefnogi'r casgliad hwn fel a ganlyn:

- Nid oedd archwiliadau'n cael eu cofnodi
- Nid yw asesiadau risg yn cael eu cofnodi'n gyson
- Nid yw archwiliadau o'r tu mewn i'r geg a'r tu allan i'r geg yn cynnwys digon o fanylion ac nid ydynt yn cael eu cofnodi'n gyson
- Nid oedd radiograffiau yn cael eu defnyddio'n gyson yn ystod archwiliadau arferol.

Roedd y canfyddiadau hyn yn golygu na allai AGIC fod yn sicr bod y prif ddeintydd yn arfer barn glinigol broffesiynol briodol o ran cynllunio a darparu triniaethau. Mae hyn yn risg ddifrifol i ddiogelwch y cleifion gan fod triniaethau a gynhelir heb wiriadau cyn-triniaeth priodol, cyfiawnhad cynhwysfawr ac asesiadau risg yn golygu bod y cleifion yn wynebu risg o gymhlethdodau difrifol a chanlyniadau gwael a allai beri risg i iechyd y geg ac iechyd cyffredinol y cleifion.

Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r uchod yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Rheolwr Cofrestredig sy'n berchen ar bractis Gupta Dental Surgeons⁹. Roedd y Rheolwr Cofrestredig hefyd yn gweithredu fel yr Unigolyn Cyfrifol¹⁰ a'r prif ddeintydd.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Daflen Wybodaeth i Gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nodwyd bod y staff wedi cytuno â'r polisiau a'u llofnodi. Golygai hyn fod y staff yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am y polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith i'w cefnogi yn eu rolau.

⁹Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

¹⁰Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC¹¹.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar gyfer pob un ohonynt. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau adnoddau dynol ar waith, gan gynnwys polisi recriwtio. Roedd Rheolwr y Practis, a benodwyd yn ddiweddar, wedi dechrau'r broses o gwblhau arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff a oedd yn cynnwys cynllun datblygu personol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos tystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi dechrau cynnal cyfarfodydd staff. Roedd y rhain yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau mewn perthynas â'r practis, gan gynnwys gwybodaeth a allai effeithio ar y staff. Gwelsom nodiadau cryno o'r cyfarfod hwn ac roedd y staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Rheolwr y Practis ac yn llofnodi copi o'r nodiadau.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff.

¹¹O dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, rhaid i'r darparwr cofrestredig hysbysu AGIC am ddigwyddiadau pwysig, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig.

7. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

8. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Gupta Dental Surgeons

Dyddiad arolygu: 8 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni allai AGIC fod yn sicr bod y prif ddeintydd yn defnyddio prosesau clinigol proffesiynol o ran cadw cofnodon. Mae'n ofynnol i'r practis gadw cofnodion yn gywir er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod archwiliadau'n cael eu cofnodi Bod asesiadau risg yn cael eu cofnodi'n gyson Bod archwiliadau o'r tu mewn i'r geg a'r tu	Rheoliad 14 (1) (b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Er mwyn sicrhau AGIC fy mod yn cadw cofnodion yn gywir ac yn cofnodi archwiliadau clinigol, rwyf wedi penderfynu ymgymryd â'r camau canlynol: a) Byddaf yn gweithio ar y cyd â "Chynghorwyr Deintyddol Bwrdd Iechyd Bae Abertawe", Chris Wills-Wood a Richard Jones, sydd wedi cytuno'n garedig i	Amrish Gupta	Parhaus gan ddechrau ar unwaith

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
allan i'r geg yn cynnwys digon o fanylion ac yn cael eu cofnodi'n gyson Bod radiograffiau yn gyson yn ystod archwiliadau arferol.		fy helpu i gynnal fy archwiliad cadw cofnodion nes y byddaf yn cyrraedd safon dderbyniol. b) Rwyf hefyd mewn cysylltiad â Dr Johnstone o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn cynnal archwiliad ar gadw cofnodion a gymeradwywyd gan yr Archwiliad Clinigol ac Adolygiad gan Gymheiriaid (CAPRO). c) Byddaf yn mynd ar gwrs datblygiad proffesiynol parhaus a gynhelir gan AaGIC ar gadw cofnodion ar 25/05/2019. d) Rwyf wedi trefnu lle ar sawl cwrs er mwyn		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymdrin â materion cadw cofnodion a nodwyd mewn arolygiadau diweddar. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn fy nghynllun datblygu personol ac maent yn cwmpasu'r meysydd canlynol: i) Radiograffiau – byddaf yn cynnal archwiliad o radiograffiau a gymerir a'u hamlder. ii) Cynllunio triniaethau – cyrsgiau wedi'u trefnu ac ysgrifennu myfyriol i'w wneud yn dilyn y cwrs. iii) Rheoliadau'r		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		GIG – cwrs wedi'i drefnu ac ysgrifennu myfyriol i'w wneud. iv) Ysgrifennu myfyriol ar safonau Cyfadran yr Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol ar gadw cofnodion. Cynllunio triniaethau Byddaf hefyd yn ysgrifennu'n fyfyrionol am fy ngwaith cynllunio triniaethau ar y cyd â'm mentoriaid Rheoli'r practis a) Rwy'n		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sylweddoli y gallaf ond fod mor gryf â fy nhîm, felly byddaf yn trefnu hyfforddiant rheoli ar gyfer fi fy hun a rheolwr y practis b) Rwy'n bwriadu recriwtio therapydd neu weithiwr cyswllt er mwyn rhyddhau amser ar gyfer rheoli'r practis ac i ganiatáu mwy o amser ar gyfer apwyntiadau		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nododd AGIC yn ystod yr arolygiad nad oedd prosesau ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu cyffuriau a chyfarpar brys a oedd wedi darfod. Mae angen proses i ddangos tystiolaeth o'r ffordd y bydd y practis yn sicrhau bod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu gwirio, eu monitro a'u gwaredu'n briodol.	Rheoliadau 13(2)(a), 13(4)(a) a 31(b) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017	O ran sicrhau bod meddyginiaethau a chyfarpar o fewn eu dyddiadau defnyddio: a) Rwyf wedi creu protocol safonedig ar gyfer y cyffuriau a'r cyfarpar meddygol brys. b) Rwyf wedi cael nodwyddau newydd yn lle'r hen rai sydd â dyddiad darfod o 08/2023. Hefyd, mae'r tîm cyfan yn cael ei hyfforddi i'w defnyddio yn ystod cwrs MEWNOL ar argyfyngau meddygol. c) Caewyd y ddeintyddfa ar 10/04/19 a chafodd y practis cyfan ei lanhau'n drylwyr. Cafodd yr holl	Amrish Gupta	Parhaus gan ddechrau ar unwaith

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddeintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc eu glanhau a'u gwirio. Cafodd unrhyw ddeunyddiau neu gyfarpar a oedd wedi darfod eu gwaredu o'r safle. d) Wrth symud ymlaen, rwyf wedi creu protocol lle caiff yr holl ddeintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc eu gwirio'n fisol a bydd unrhyw stoc sy'n nesáu at ei dyddiad darfod yn cael ei gwaredu. Hefyd, mae angen i'r cwpwrdd stoc gael ei drefnu yn unol â dyddiadau darfod y deunyddiau h.y. mae angen i'r deunyddiau		

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sydd â'r dyddiadau darfod cynharaf fod yn y tu blaen, a'r deunyddiau sy'n gallu para'n hwy yn y cefn. e) Byddaf yn cynnal hapwiriadau yn y deintyddfeydd a'r cwpwrdd stoc er mwyn sicrhau bod y protocolau'n cael eu dilyn. Byddaf yn gwneud hyn drwy drefnu amser yn fy nyddiadur ar gyfer hapwiriadau. Drwy wneud hyn, bydd amser penodol wedi'i drefnu er mwyn sicrhau bod yr hapwiriadau'n digwydd.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Amrish Gupta

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 24/04/2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gupta Dental Surgeons

Dyddiad arolygu: 8 Ebrill 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn rhoi'r cyfle i'r cleifion roi adborth ar y gwasanaethau mae'n eu darparu.	6.3 Gwrando ar adborth a dysgu ohono; PDR a16	Cynhaliwyd arolwg boddhad cleifion.	Amrish Gupta	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r practis roi proses ar waith i ymateb i adborth gan gleifion yn amserol.		Hefyd penderfynwyd cynnal arolwg boddhad bob chwarter gyda samplau bach o 10 claf. Bydd hyn yn ein galluogi i gael cipluniau o farn cleifion ar adegau gwahanol o'r flwyddyn. Er enghraifft, yn ystod gwyliau ysgol. Gan fod Rheolwr y Practis wedi bod yn ymgyfarwyddo â'r practis dros y 6 mis diwethaf, rwyf i a hi wedi gallu ymdrin â chwynion cleifion o fewn amserlen benodol. Mae'r protocol ar gyfer ymdrin â chwynion cleifion wedi cael ei adolygu a rhoddwyd gwybod i'r tîm am y protocol	Amrish Gupta	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ar gyfer "mynegi pryder".		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylid diogelu'r cypyrddau heb eu cloi yn yr ardaloedd aros er mwyn sicrhau nad yw'r cleifion yn gallu cyrraedd manau peryglus. Dylid gosod biniau offer miniog yn sownd er mwyn sicrhau na chaiff y staff na'r cleifion eu hanafu.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; PDR a22 (4)	Mae cypyrddau oedd heb eu cloi yn yr ardal aros wedi cael eu selio gan nad oeddent yn cael eu defnyddio. Mae'r biniau ar gyfer offer miniog wedi cael eu gosod yn sownd wrth y wal yn y deintyddfeydd.	Amrish Gupta	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod sbectolau diogelwch yn cael eu glanhau rhwng pob claf. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod y safle yn cael ei lanhau'n drwyadl. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau y cynhelir archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn, yn unol â WHTM 01-05. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer trafod, casglu a gwaredu gwastraff amalgam a	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi; PDR a8 ac a13	Mae sbectolau diogelwch newydd wedi cael eu harchebu ac rwyf wedi cael trafodaeth â'r tîm cyfan ynghylch pwysigrwydd dihalogi ac atal croes-heintio rhwng cleifion. Mae archwiliad WHTM01-05 wedi cael ei gwblhau ac rydym yn aros am adborth gan Ddeoniaeth Cymru. Mae gennym gontract gyda'r casglwr gwastraff SRCL. Mae'r contract yn cynnwys y pecyn deintyddol gydag 8 pot ar gyfer ffoil plwm, blwch dannedd, drymiau slwtsh, cynhwysydd amalgam a	Amrish Gupta Amrish Gupta Amrish Gupta	Cwblhawyd 30/06/2019 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dannedd a dynnwyd yn ddiogel.		chapsiwlau, bin offer miniog. Rwyf wedi adolygu'r arfer o waredu gwastraff yn y practis ac wedi rhoi gwybod i'r tîm cyfan am wahanu'r gwastraff deintyddol yn gywir.		
Mae angen rhoi polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ei ddeall yn iawn. Mae angen cadw cofnod clir o'r meddyginiaethau a roddir i'r cleifion ar wahân i gofnodion clinigol y cleifion. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod eitemau clinigol, megis meddyginiaethau, yn cael eu cadw yn eu hoergell eu hunain i ffwrdd oddi wrth eitemau anghlinigol. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser i atal pobl anawdurdodedig rhag eu defnyddio.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; PDR a8 ac a13 (4)	Mae'r polisi rheoli meddyginiaethau wedi cael ei adolygu ac mae protocol cyffuriau brys newydd wedi cael ei roi ar waith yn y practis. Ers 30/04/19. Yn achos argyfwng meddygol, mae angen cadw cofnod ar wahân o unrhyw gyffuriau a roddir i'r cleifion. Mae cofnodlyfr newydd yn cael ei gadw gyda'r pecyn cyffuriau. Mae oergell ar wahân wedi cael ei gosod er mwyn cadw meddyginiaethau ac eitemau anghlinigol ar wahân. Caiff padiau presgripsiwn eu cadw mewn cabinet dan glo yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod dros nos.	Amrish Gupta Amrish Gupta Amrish Gupta Amrish Gupta	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r practis roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; PDR a16	Rydym wedi penderfynu cynnal archwiliadau clinigol rheolaidd bob blwyddyn. Rydym yn cynnal archwiliad cadw cofnodion ar hyn o bryd.	Amrish Gupta	Eisoedd ar waith
Dylai'r practis ystyried rhaglen o adolygiadau gan gymheiriaid i'r staff clinigol.	3.3 Gwellu Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; PDR a16	Rwyf wedi penderfynu rhoi deintyddfa arall yn y practis a phenodi deintydd cyswllt/locwm/partner i rannu fy llwyth gwaith cleifion. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i mi gynnal adolygiadau cymheiriaid yn y practis.	Amrish Gupta	Rhagfyr 2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Amrish Gupta

Teitl swydd: Prif Ddeintydd/Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 06/06/2019